Sunday 25th October 2026
+ The Last Sunday after Trinity

The collect of the day

Blessed Lord, you caused all holy scriptures to be written for our learning : help us so to hear them, to read, mark, learn and inwardly digest them that, through patience and the comfort of your holy word, we may embrace and for ever hold fast the hope of everlasting life, which you have given us in our Saviour Jesus Christ, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Leviticus
(19.1-2, 15-18)

The Lord spoke to Moses, saying: Speak to all the congregation of the people of Israel and say to them: You shall be holy, for I the Lord your God am holy.

You shall not render an unjust judgement; you shall not be partial to the poor or defer to the great: with justice you shall judge your neighbour. You shall not go around as a slanderer among your people, and you shall not profit by the blood of your neighbour: I am the Lord.

You shall not hate in your heart anyone of your kin; you shall reprove your neighbour, or you will incur guilt yourself. You shall not take vengeance or bear a grudge against any of your people, but you shall love your neighbour as yourself: I am the Lord.

The Psalm
(1)

Blessed are they who have not walked in the / counsel of the / wicked: nor lingered in the way of sinners, nor sat in the as/sembly / of the / scornful. Their delight is in the / law of the / Lord: and they meditate on his / law / day and / night.

Like a tree planted by streams of water * bearing fruit in due season, with leaves that / do not / wither: whatever they / do, / it shall / prosper. As for the wicked, it is not / so with / them: they are like chaff which the / wind / blows a/way.

Therefore the wicked shall not be able to / stand in the / judgement: nor the sinner in the congre/gation / of the / righteous. For the Lord knows the / way of the / righteous: but the / way of the / wicked shall / perish.

A reading from I Thessalonians
(2.1-8)

You yourselves know, brothers and sisters, that our coming to you was not in vain, but though we had already suffered and been shamefully maltreated at Philippi, as you know, we had courage in our God to declare to you the gospel of God in spite of great opposition. For our appeal does not spring from deceit or impure motives or trickery, but just as we have been approved by God to be entrusted with the message of the gospel, even so we speak, not to please mortals, but to please God who tests our hearts.

As you know and as God is our witness, we never came with words of flattery or with a pretext for greed; nor did we seek praise from mortals, whether from you or from others, though we might have made demands as apostles of Christ. But we were gentle among you, like a nurse tenderly caring for her own children. So deeply do we care for you that we are determined to share with you not only the gospel of God but also our own selves, because you have become very dear to us.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(22.34-46)

When the Pharisees heard that Jesus had silenced the Sadducees, they gathered together, and one of them, a lawyer, asked him a question to test him. 'Teacher, which commandment in the law is the greatest?'

He said to him, "'You shall love the Lord your God with all your heart, and with all your soul, and with all your mind." This is the greatest and first commandment. And a second is like it: "You shall love your neighbour as yourself." On these two commandments hang all the law and the prophets.'

Now while the Pharisees were gathered together, Jesus asked them this question: 'What do you think of the Messiah? Whose son is he?'

They said to him, 'The son of David.'

He said to them, 'How is it then that David by the Spirit calls him Lord, saying, "The Lord said to my Lord, 'Sit at my right hand, until I put your enemies under your feet'"? If David thus calls him Lord, how can he be his son?'

No one was able to give him an answer, nor from that day did anyone dare to ask him any more questions.

The collect following communion

Gracious God, your Son Jesus Christ fed the hungry with the bread of his life and the word of his kingdom : renew your people with your heavenly grace, and in all our weakness sustain us by your true and living bread; who is alive and reigns, now and for ever. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects.* Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

Dydd Sul 25ain Hydref 2026
+ Y Sul Olaf wedi'r Drindod

Colect y dydd

O Arglwydd bendigaid, a beraist fod yr holl ysgrythur lân yn ysgrifenedig i'n haddysgu ni, cynorthwya ni i wrando arni, ei darllen, ei chwilio, ei dysgu ac ymborthi arni fel, trwy amynedd, a chymorth dy air sanctaidd y cofleidiwn ac y daliwn ein gafael yn wastadol yng ngobaith y bywyd tragwyddol, a roddaist i ni yn ein Hiachawdwr Iesu Grist, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Lefiticus
(19.1-2, 15-18)

Llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses, "Dywed wrth holl gynulleidfa pobl Israel, 'Byddwch sanctaidd, oherwydd yr wyf fi, yr ARGLWYDD eich Duw, yn sanctaidd.

"'Nid wyt i wyro barn, na bod yn bleidiol tuag at y tlawd na dangos ffafriaeth at y mawr, ond yr wyt i farnu dy gymydog yn deg. Nid wyt i fynd o amgylch yn enllibio ymysg dy bobl na pheryglu bywyd dy gymydog. Myfi yw'r ARGLWYDD.

"'Nid wyt i gasáu dy frawd a'th chwaer yn dy galon, ond yr wyt i geryddu dy gymydog rhag iti fod yn gyfrifol am ei drosedd. Nid wyt i geisio dial ar un o'th bobl, na dal dig tuag ato, ond yr wyt i garu dy gymydog fel ti dy hun. Myfi yw'r ARGLWYDD.'"

Y Salm
(1)

Gwyn ei fyd y sawl nad yw'n dilyn cyngor y drygionus nac yn ymdroi hyd ffordd pechaduriaid nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr, ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.

Y mae fel pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor, a'i ddeilen heb fod yn gwywo. Beth bynnag a wna, fe lwydda. Nid felly y bydd y drygionus, ond fel us yn cael ei yrru gan wynt.

Am hynny, ni saif y drygionus yn y farn na phechaduriaid yng nghynulleidfa'r cyfiawn. Y mae'r ARGLWYDD yn gwylio ffordd y cyfiawn, ond y mae ffordd y drygionus yn darfod.

Darlleniad o I Thesaloniaid
(2.1-8)

Fe wyddoch eich hunain, gyfeillion, na fu ein dyfodiad atoch yn ofer. Yr oeddem eisoes wedi dioddef ac wedi cael ein sarhau, fel y gwyddoch, yn Philipi, ond buom yn hy trwy nerth ein Duw i draethu i chwi Efengyl Duw, er mor galed oedd y frwydr. Oherwydd nid yw ein hapêl ni yn codi o gyfeiliornad, na chwaith o amhurdeb, ac nid oes ynddi dwyll; yn hytrach, fel y cawsom ein profi'n gymeradwy gan Dduw i gael ymddiried yr Efengyl inni, yr ydym yn llefaru fel rhai sy'n boddhau, nid meidrolion ond Duw, yr hwn sy'n profi ein calonnau.

Oherwydd, fel y gwyddoch, ni buom un amser yn arfer geiriau gweniaith, na chwaith ffalster i gelu trachwant — fel y mae Duw'n dyst. Ac nid oeddem yn ceisio gogoniant gan bobl, gennych chwi na neb arall, er y gallasem, fel apostolion Crist, fod yn ddynion o bwys. Ond buom yn addfwyn yn eich plith, fel mamaeth yn meithrin ei phlant ei hun. Felly, yn ein hoffter ohonoch, yr oedd yn dda gennym gyfrannu i chwi, nid yn unig Efengyl Duw, ond nyni ein hunain hefyd, gan i chwi ddod yn annwyl gennym.

Darlleniad Efengyl ol Sant Mathew
(22.34-46)

Clywodd y Phariseaid iddo roi taw ar y Sadwceaid, a daethant at ei gilydd. Ac i roi prawf arno, gofynnodd un ohonynt, ac yntau'n athro'r Gyfraith, "Athro, pa orchymyn yw'r mwyaf yn y Gyfraith?"

Dywedodd Iesu wrtho, "'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.' Dyma'r gorchymyn cyntaf a phwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu."

Yr oedd y Phariseaid wedi ymgynnull, a gofynnodd Iesu iddynt, "Beth yw eich barn chwi ynglŷn â'r Meseia? Mab pwy ydyw?"

"Mab Dafydd," meddent wrtho.

"Sut felly," gofynnodd Iesu, "y mae Dafydd trwy'r Ysbryd yn ei alw'n Arglwydd, pan ddywed: 'Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i, "Eistedd ar fy neheulaw nes imi osod dy elynion dan dy draed"'? Os yw Dafydd felly yn ei alw'n Arglwydd, sut y mae'n fab iddo?"

Ac nid oedd neb yn gallu ateb gair iddo, ac o'r diwrnod hwnnw ni feiddiodd neb ei holi ddim mwy.

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw grasol, rhoes dy Fab Iesu Grist fara ei fywyd a gair ei deyrnas yn fwyd i'r newynog: adnewydda dy bobl â'th ras nefol, ac yn ein holl wendid cynnal ni trwy dy wir a'th fywiol fara, ef sy'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr ac am byth. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.